



St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

Daeth i rym: Mehefin 30^{ain} 2015

Adolygwyd: Tachwedd 2017

Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
Coleg Catholig Dewi Sant

Tabl y Cynnwys

1.	Rhagarweiniad	2
2.	Diffiniad o Gyfryngau Cymdeithasol.....	2
3.	Nod	3
4.	Y Defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol	3
5.	Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol na weinyddir gan Goleg Dewi Sant	5
6.	Camau Disgyblu oherwydd y camddefnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol	6
7.	Datgeliad er lles y cyhoedd ("chwythu'r chwiban")	6
8.	Adolygiad.....	Error! Bookmark not defined.

1. RHAGARWEINIAD

Mae Coleg Catholig Dewi Sant wedi ymrwymo i wneud y defnydd gorau o'r holl dechnoleg a'r arloesedd sydd ar gael i wella'r modd yr ydyn ni'n cynnal ein busnes. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r holl ddulliau rhesymol a chost effeithiol i wella'r modd yr ydyn ni'n cyfathrebu, estyn allan a rhyngweithio gyda'r gwahanol gymunedau yr ydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ac yn cyfeirio at yr holl ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a wna myfyrwyr a staff Coleg Catholig Dewi Sant i gynrychioli'r Coleg neu drafod materion yn ymwneud â'r Coleg a/neu aelodau o gymuned y Coleg, p'un ai bod y cyfryw ddefnydd yn cynnwys rhwydwaith y Coleg neu adnoddau cyfrifiadurol eraill ai peidio.

Mae'n bwysig sylweddoli, fodd bynnag, bod y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yng Ngholeg Catholig Dewi Sant neu'n ymwneud â'r Coleg yn dod o dan yr un deddfau, polisïau, rheolau ymddygiad a moesddefodau â phob gweithgaredd arall yng Ngholeg Catholig Dewi Sant neu'n ymwneud â'r Coleg. Gallai gweithgareddau preifat eu natur a gynhelir i ffwrdd o'r Coleg hyd yn oed olygu y gallech gael eich disgyblu os ydyn nhw'n adlewyrchu'n wael ar y Coleg neu'n ymyrryd â busnes y Coleg.

2. DIFFINIAD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Term ydy 'cyfryngau cymdeithasol' a roddir fel arfer i adnoddau ar y we sy'n caniatáu i ddefnyddwyr rhyngweithio â'i gilydd mewn ryw fodd – drwy rannu gwybodaeth, barn a diddordebau ar-lein. Fel mae'r term yn awgrymu, mae cyfryngau cymdeithasol yn golygu adeiladu cymunedau neu rwydweithiau ar-lein er mwyn annog pobl i gyfrannu ac ymglymu.

Mae hyn yn cynnwys fforymau cymdeithasol ar-lein megis Twitter (Trydar), Facebook (Gweplyfr), Instagram a LinkedIn. Mae Cyfryngau Cymdeithasol hefyd yn cynnwys blogiau a gwefannau rhannu fideos a delweddau megis YouTube a Flickr. *{Dylai cyflogai fod yn ymwybodol bod llawer mwy o enghreifftiau o gyfryngau cymdeithasol nag sydd wedi'u rhestru yma ac mae hwn yn faes sy'n newid yn barhaus. Dylai cyflogai ddilyn y canllawiau hyn o ran unrhyw gyfrwng cymdeithasol y gallan nhw ei ddefnyddio.}*

Mae'r llwyfannau hyn yn agor nifer o gyfleoedd newydd a chyffrous. Fodd bynnag, mae rhoi technoleg o'r fath ar waith yn datblygu'n barhaus ac mae llawer o faterion a phroblemau posibl i'w hystyried – fel unigolion cyflogedig ac fel Coleg.

Er mwyn osgoi camgymeriadau mawr a allai olygu problemau gydag enw da, problemau cyfreithiol a moesegol a chamddefnyddio cysylltiad cyfrwng cymdeithasol sy'n gweithredu'n dda, mae'n bwysig ein bod **yn rheoli** unrhyw risgiau posibl drwy ddefnyddio synnwyr cyffredin wrth fynd ati, defnyddio fframwaith yn ogystal â rhagweithio i fonitro datblygiad cymwysiadau fel hyn.

3. NOD

Nod y canllawiau hyn ydy darparu gwybodaeth ar gyfer rheolwyr ac unigolion cyflogedig ar ddefnyddio neu ddatblygu, unrhyw gymhwysiad cyfrwng cymdeithasol, a'u helpu i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael tra'n cynnal amgylchedd diogel, proffesiynol a'u hamddiffyn eu hunan yn ogystal â'r Coleg.

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r Polisi ar y Defnydd derbyniol o TG, Y Cod Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol, Y Siarter Myfyrwyr ac unrhyw bolisi perthnasol arall.

4. Y DEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Wrth bostio unrhywbeth ar safle cyfryngau cymdeithasol Coleg Catholig Dewi Sant, cyfathrebu gydag aelodau cymuned y Coleg, neu drafod y Coleg ar *unrhyw* safle, **hyd yn oed drwy eich cyfrif personol neu ddefnyddio'ch ffôn eich hun, eich cyfrifiadur eich hun neu unrhyw ddyfais arall heb ddefnyddio rhwydwaith nac offer y Coleg,**

Gwnewch y canlynol:

Cofio bod unrhyw ddeddfau ynghyd â pholisïau Coleg Catholig Dewi Sant ei hun ar ymddygiad amhriodol megis aflonyddwch rhywiol (neu unrhyw aflonyddwch arall), bwlio, gwahaniaethu, difrïo, torri hawlfraint a hawliau nod masnach, a datgelu cofnodion myfyrwyr ac unrhyw wybodaeth cyfrinachol a phreifat heb awdurdod, yn llwyr berthnasol i gyfathrebiadau myfyrwyr a staff Coleg Catholig Dewi Sant drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Os byddwch yn cymeradwyo Coleg Catholig Dewi Sant, rhaid i chi ddatgelu'ch perthynas â'r coleg yn gywir. Pan fyddwch yn gweithredu o fewn cylch eich cyfrifoldebau yn y Coleg, dim ond os ydych wedi cael awdurdod gan y Coleg i wneud hynny y cewch chi gymeradwyo Coleg Catholig Dewi Sant, ei raglenni neu ei wasanaethau.

Cofiwch eich bod yn ystyried cywirdeb, eglurder, hyd (mae bod yn gryno yn well) a thôn eich sylwadau yn ofalus cyn eu postio. Dylai postïadau ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol ddiogelu dull sefydliadol y Coleg o fynd ati drwy fod yn broffesiynol o ran tôn ac yn briodol o ran chwaeth. Cofiwch gallai'ch postïadau bara am byth.

Cofiwch eich bod yn defnyddio'ch enw iawn i lofnodi'ch postïadau a nodi'ch perthynas â Choleg Catholig Dewi Sant. Peidiwch â defnyddio ffugenw na phostio'n ddienw.

Parchwch farn pobl eraill, hyd yn oes os ydych yn anghytuno â'r farn honno.

Cofiwch fod yn eirwir a chyflawn wrth ddisgrifio rhaglennu a gwasanaethau Coleg Catholig Dewi Sant.

Ceisiwch fod yn atebol i gynulleidfaoedd Coleg Catholig Dewi Sant drwy ddiweddarau'r newyddion yn gyson ac ymateb yn brydlon pan fo hynny'n briodol.

Ufuddhewch i Delerau Gwasanaeth unrhyw safle neu lwyfan cyfrwng cymdeithasol yr ydych yn rhan ohono.

Lle bynnag fo'n briodol, cysylltwch yn ôl â'r wybodaeth ar wefan y Coleg yn hytrach na dyblygu'r cynnwys.

Pryd bynnag y byddwch, fel aelod o Goleg Catholig Dewi Sant, yn defnyddio cyfrwng cymdeithasol fel dull o gyfranogiad myfyrwyr mewn gwaith cwrs, gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn darparu dewis ymarferol a phriodol arall ar gyfer myfyrwyr sydd efallai'n methu neu'n gyndyn o ddefnyddio'r cyfrwng cymdeithasol hwnnw (er enghraifft efallai nad ydy rhai myfyrwyr yn gyfforddus i agor cyfrif Facebook).

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i aflonyddu ar rywun, bygwth, sarhau, difrïo na bwlio unigolyn neu endid arall; nac i dorri unrhyw bolisi'r Coleg; nac i gymryd rhan mewn unrhyw weithred anghyfreithlon, sy'n cynnwys ond nid yn gyfyngedig i gamblo, dwyn hunaniaeth neu fathau eraill, o dwyll.

Postio na storio cynnwys sy'n fasweddus, pornograffig, difenwol, hiliol, gor-dreisgar, cynnwys sy'n aflonyddu, yn bygwth, yn bwlio neu fel arall yn annymunol ac atgas neu'n niweidiol a drwg. Yn ychwanegol, peidiwch â cheisio peryglu diogelwch unrhyw safle cyfrwng cymdeithasol Coleg Catholig Dewi Sant na defnyddio'r cyfryw safle i gynnal unrhyw loteri anghyfreithlon, unrhyw weithred gamblo nac unrhyw fenter anghyfreithlon arall.

Arddangos cynnwys sydd ag hawlfraint arno megis testun, fideo, graffeg na ffeiliau sain) heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint. Cofiwch, gallai gwybodaeth sydd hyd yn oed ar gael i'r cyhoedd (megis testun, ffotograffau neu unrhyw ddeunydd arall a roddir ar y Rhyngryd) fod yn amodol ar gyfyngiadau hawlfraint sy'n rhwystro dyblygu neu ddosbarthu heb awdurdod. Am ragor o wybodaeth, darllenwch Bolisi Hawlfraint Coleg Catholig Dewi Sant.

Defnyddio enw, logo, nod masnach Coleg Catholig Dewi Sant ar gyfer cyhoeddiadau hyrwyddo, hysbysebu, datganiadau i'r wasg ynglŷn â chynnyrch neu at ddefnydd masnachol neu i hyrwyddo cynnyrch, achos neu blaid wleidyddol neu ymgeisydd gwleidyddol.

Datgelu gwybodaeth gyfrinachol y Coleg, strategaethau heb fod yn rhai cyhoeddus, cofnodion myfyrwyr na gwybodaeth bersonol am aelodau (presennol u gyn-aelodau) o Goleg Catholig Dewi Sant heb yr awdurdodiad priodol.

Gwneud honiadau ffug neu ymholiadau anwir am raglenni neu wasanaethau Coleg Catholig Dewi Sant a pheidiwch â bwrw amcan neu ddyfalu os nad yw'r wybodaeth gennych.

Taenu clecs, sïon neu unrhyw wybodaeth arall heb ei dilysu. Ar ben hynny, peidiwch â chymryd yn ganiataol bod popeth a roddir ar gyfrwng cymdeithasol yn wir.

Treulio gormod o amser yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion personol yn ystod oriau gwaith na defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol, rhwydweithiau, cyfarpar na phethau perifferol Coleg Catholig Dewi Sant at ddibenion masnachol anawdurdodedig.

Trosglwyddo lythyron cadwyn, e-bost sothach a chyfathrebion torfol.

Bod yn anfoesgar neu'n ddadleugar neu ddefnyddio iaith amhriodol. (Cywirwch ffeithiau anghywir ond ceisiwch osgoi dweud pethau negyddol lle bynnag posibl.)

Sillafu'n ddiotal neu fod yn ddiotal gyda chystrawen brawddeg, na defnyddio iaith y gellir yn hawdd ei chamdeall.

Arddangos llun unigolyn neu ddelwedd fideo heb gael caniatâd a datganiadau rhyddhau talent wedi'u llofnodi gan unrhywun sy'n ymddangos yn y llun neu'r fideo.

Sylwer: Cofiwch y gall lluniau a roddir ar safleoedd y cyfryngau cymdeithasol gael eu meddiannu gan ymwelwyr. Ystyriwch ychwanegu dyfrnod a/neu arddangos delweddau ar raddfa 72 dpi a thua 800x600 er mwyn osgoi i'r rhain gael eu copïo. Mae delweddau o'r maint hwnnw yn ddigonol er mwyn neu gweld ar y we ond yn anaddas ar gyfer eu hargraffu.

Peidiwch â chyfleu'ch barn bersonol fel un sydd wedi'i gymeradwyo'n sefydliadol gan Goleg Catholig Dewi Sant. Os nad ydych wedi'ch awdurdodi i arddangos cynnwys penodol ar ran y Coleg, yna, dylid cynnwys yr ymwadiad canlynol yn eich neges: "Fy marnau personol i ydy'r rhain a dydyn nhw ddim yn adlewyrchu barn Coleg Catholig Dewi Sant.

Peidiwch â disgwyl y bydd cynnwys eich neges yn parhau'n breifat neu ei fod yn cael ei gyfyngu i'ch cynulleidfa arfaethedig, **hyd yn oed os ydych yn cyrchu'ch cyfrif preifat eich hunan drwy rwydwaith Coleg Catholig Dewi Sant neu'n defnyddio cyfarpar neu offer mylol Coleg Catholig Dewi Sant.**

Peidiwch â cheisio cuddio pwy ydych chi neu briodoli'ch sylwadau i berson arall (go wir neu ffug).

Peidiwch â sarhau, difrio, amharchu neu ddifenwi'r Coleg neu aelodau o gymuned Coleg Catholig Dewi Sant.

Peidiwch â thrafod materion cyfreithiol neu risgiau, dod i gasgliadau cyfreithiol ar ddarpar faterion rheoleiddio neu gyfreithiol yn ymwneud â'r Coleg.

Sylwer: Dydy Coleg Catholig Dewi Sant ddim yn gyfrifol am fonitro neu gyn-sgrinio'r cynnwys sy'n cael ei arddangos ar ei safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Er y cyfan o'r uchod, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i fonitro ei safleoedd a symud, heb rybudd, unrhyw gynnwys y mae Coleg Catholig Dewi Sant yn penderfynu ei fod yn niweidiol, yn sarhaus, yn fasnachol ei natur neu fel arall sy'n troseddu yn erbyn y gyfraith neu'r Polisi hwn. Os deuwch i wybod am unrhyw gynnwys annymunol neu atgas sy'n cael ei arddangos ar gyfryngau cymdeithasol Coleg Catholig Dewi Sant – neu sylwadau annymunol neu atgas yn ymwneud â'r Coleg sy'n cael ei arddangos ar safle digyswllt –

rhowch wybod i'r Pennaeth Cynorthwyol – Gwybodaeth Rheoli ac Adnoddau, Ystadau ac Adnoddau Dynol yn syth.

5. ARDDANGOS AR SAFLEOEDD CYFRYNGAU CYMDEITHASOL NA WEINYDDIR GAN GOLEG CATHOLIG DEWI SANT

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn ymwybodol y gallai aelodau o'r gymuned ddymuno mynegi ei syniadau a'u barnau personol ar y cyfryngau cymdeithasol preifat na weinyddir gan y Coleg. **Ond, mae Coleg Catholig Dewi Sant yn cadw'r hawl, o dan amgylchiadau y mae'n ystyried yn briodol ac amodol ar ddeddfau a rheoliadau cymwys a pherthnasol, i osod mesurau disgyblu, hyd at ac yn cynnwys diswyddiad o'r Coleg neu derfynu cyflogaeth, ar fyfyrwyr neu staff sy'n defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol neu adnoddau cyfathrebu yn groes i'r Canllawiau Defnydd sydd yn y polisi hwn, neu mewn modd sy'n adlewyrchu'n wael ar y Coleg, neu a dybir eu bod yn ymyrryd â'r dull y cynhelir busnes y Coleg.** Mewn achosion priodol, gallai ymddygiad fel hyn gael ei riportio hefyd i awdurdodau sy'n gorfodi'r gyfraith.

6. CAMAU DISGYBLU OHERWYDD Y CAMDDEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae'n ofynnol i'r holl fyfyrwyr a staff gadw at y canllawiau hyn a bod yn ymwybodol y gallai defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol mewn modd y gellid ei ystyried sy'n gamddefnydd bwriadol neu anfwriadol a allai fod yn torri'r canllawiau hyn, olygu camau disgyblu dan Weithdrefn Disgyblu'r Coleg. Gall achosion difrifol o dorri'r canllawiau hyn, er enghraifft achosion o fwlian cydweithwyr neu weithgaredd cyfryngau cymdeithasol sy'n achosi difrod difrifol i'r Coleg, fod yn gamymddwyn difrifol a gallai olygu camau dan y gweithdrefnau disgyblu hyd at ac yn cynnwys diswyddo/atal dros dro.

7. DATGELIAD ER LLES Y CYHOEDD ('CHWYTHU'R CHWIBAN')

Pan fo cyflogai'n rhyddhau gwybodaeth y gellid ei ystyried yn Ddatgeliad er Lles y Cyhoedd ('Chwythu'r Chwiban'), yn y lle cyntaf dylai Polisi'r Coleg ar Chwythu'r Chwiban gael ei weithredu cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

8. ADOLYGIAD

Mae natur gyfnewidiol technoleg gwybodaeth, yn arbennig yng nghyd-destun cyfathrebu electronig sy'n cynnwys agweddau megis y Cyfryngau Cymdeithasol, yn golygu dylid adolygu'r canllawiau hyn yn flynyddol.